Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau Darparwyr / Gofal gan Berthynas a Sefydlogrwydd neu Faethu Cyffredinol |
| **TEITL Y SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio 1, 2 a 3 (Lleoliadau a Maethu Cyffredinol) |
| **GRADD:** | Gradd 10 – Newydd Gymhwyso<br>Gradd 11 – SW2<br>Gradd 12 – Yn amodol ar 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso |
| **YN ATEBOL I'R**: | Uwch-ymarferydd – Gofal gan Berthynas a Sefydlogrwydd neu Faethu Cyffredinol |

**DIBEN Y SWYDD:**
Recriwtio, ymweld ac asesu darpar ofalwyr maeth gan ddefnyddio'r Ffurflen F neu'r templed asesu Personau Cysylltiedig a goruchwylio, cynorthwyo a lle y bo angen hwyluso hyfforddi llwyth achosion o ofalwyr maeth cymeradwy. Dadansoddi gwybodaeth gymhleth a gasglwyd yn ystod goruchwyliaeth, paratoi adroddiadau o ansawdd uchel a chyfrannu at adolygu a rheoli gofalwyr maeth yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mynd i'r llys fel sy'n ofynnol fel rhan o gyfrifoldebau goruchwylio neu asesu

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Rheoli achosion a goruchwylio gofalwyr maeth yn unol â safonau gofynnol cenedlaethol, gyda llwyth achosion sy'n gymesur â phrofiad.
- Gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol, rheoliadol a pholisi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Gofal Maeth.
- Cynnal Ffurflen F, Personau Cysylltiedig ac unrhyw asesiadau eraill i derfynau amser penodol gan ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a gallu crynhoi canfyddiadau a rhoi tystiolaeth ohonynt.
- Wrth i aelod o dîm gyfrannu at y gwasanaeth dyletswydd a weithredir gan y tîm i gynorthwyo gofalwyr maeth ac ymateb i atgyfeiriadau.
- Cyfrannu fel aelod o dîm at recriwtio a hyfforddi gweithgaredd y Tîm Maethu ac adolygu gofalwyr maeth gan sicrhau bod anghenion hyfforddi a chymorth yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy.

- Gweithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael ag anghenion plant a'u teuluoedd, gan gynnwys paratoi fforymau gwneud penderfyniadau a chymryd rhan ynddynt.
- Nodi angen heb ei ddiwallu a thynnu sylw rheolwyr yn yr Is-Adran at hyn, cynorthwyo wrth gasglu data fel sy'n ofynnol a diweddaru eich cofnodion gofalwyr eich hun a sicrhau eu bod yn ffeithiol gywir.
- Cyfrannu at ddatblygu'r polisïau a gweithdrefnau gwasanaeth maethu drwy weithio ar eich prosiect eich hun naill ai'n annibynnol neu ar y cyd.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun neu i wella cymhwysedd yn y swydd. Gweithwyr Cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer i gwblhau eu blwyddyn gyntaf yn ymarfer a'r rhaglen atgyfnerthu.
- Cynnal adolygiadau blynyddol yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

**Gradd 11 - Fel yr uchod ynghyd â:**

- Bod yn gyfrifol am fwy o waith goruchwylio gofalwyr maeth ynghyd â mwy o gymhlethdod o ran goruchwylio ac asesiadau.
- Mentora a chynorthwyo myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn eu hymarfer.

**Gradd 12 - Fel yr uchod ynghyd â'r canlynol:**

- Arwain cydweithio â Gweithwyr Cymdeithasol llai profiadol mewn achosion cymhleth.
- Rhoi cyngor a chanllawiau i gynorthwyo datblygu gweithwyr cymdeithasol llai profiadol ac aelodau eraill o'r tîm.
- Goruchwylio a mentora Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ac aelodau eraill o staff iau.
- Goruchwylio Gofalwyr Maeth Arbenigol (Rhieni a Phlant/Pontio).
- Ymgymryd â gwaith mabwysiadu sensitif, acíwt a chymhleth sy'n cynnwys asesu, goruchwylio a chynorthwyo darpar *ofalwyr maeth* sy'n berthnasau a gofalwyr maeth presennol a fydd yn gofyn am fynd i'r llys a gweithredu ar ran y cyngor mewn lleoliadau ffurfiol eraill.
- Cynnal asesiadau cymhleth helaeth rheolaidd o addasrwydd ymgeiswyr i faethu a chyflwyno'r asesiadau hyn i baneli ffurfiol yn ôl y gofyn.
- Cymryd rhan mewn penderfyniadau ac argymhellion paru lleoliadau.
- Gweithio gyda darpar ofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig a theuluoedd plant â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Darparu asesiadau cymhleth, lleoliadau a'r gwaith parhaus o gyflwyno cynlluniau cymorth cadarn cynhwysfawr i blant sy'n cael eu lleoli.
    - Achosion Gofal.
    - Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.

- Gwaith gofal a chymorth cymhleth arall fel y bo'n ofynnol, gan gynnwys ymchwiliadau amddiffyn plant.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol 1 a 3 – Gofal gan Berthynas a Sefydlogrwydd neu Faethu Cyffredinol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy | |
| | • PQ – Rhaglen Atgyfnerthu os ydych wedi cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016. | Ydy | |
| | • 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bresennol, Deddf Plant 1989 a 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau Gwasanaethau Maethu Cymru 2018 Awdurdod Lleol a'r Cod Ymarfer. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Profiad o ymgymryd â Ffurflen F a'i chyflwyno, neu asesiadau cymhleth eraill. | Ydy | |
| | • Profiad o amgyffred gwybodaeth gymhleth, dadansoddi a chrynhoi'r wybodaeth honno i safon uchel. | Ydy | |
| | • Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed. | Ydy | |
| | • Profiad o reoli llwyth gwaith a threfnu amser. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth am gyfrifoldebau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac am Bolisi, Canllawiau Statudol a'r Gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso. | | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (Parhad)** | • Profiad o nodi anghenion plant a phobl ifanc.<br>• Profiad uniongyrchol o achosion cymhleth.<br>• Profiad uniongyrchol o ysgrifennu asesiadau cymhleth sy'n llywio ceisiadau llys/cynlluniau gofal ar gyfer plant a phobl ifanc.<br>• Profiad uniongyrchol o waith llys. | <br>Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, cyflwyno a deall gwybodaeth gymhleth.<br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Uniondeb personol a phroffesiynol.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm gan rannu cyfrifoldebau a chyfrannu brwdfrydedd ac ymroddiad.<br>• Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth<br>• Disgwylir bod gennych gerbyd modur i'w ddefnyddio ar deithiau swyddogol. Caiff eich treuliau milltiredd eu had-dalu'n seiliedig ar y gyfradd y cytunir arni'n lleol.<br>• Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (Parhad)** | • Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu.<br>• Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |